# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 10 Tachwedd 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn datgan bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig:

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw'r flaenoriaeth a roddir i wahanol gategorïau o ymgeiswyr ar gyfer y Cwota Cynllun Premiwm Defaid o dan Ddyraniad y Gronfa Genedlaethol yn 2001? (WAQ7870)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Faint o gleifion a fu farw bob blwyddyn o 1995 i 1999 tra ar y rhestr aros am drawsblaniad organau yng Nghymru (WAQ7871)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff ddatganiad am nifer y gwelyau sydd ar gael yn ysbytai ardal Gogledd Cymru. (WAQ 7872)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Faint o nyrsys a gyflogir yng Nghymru ac a wnaiff ddatganiad. (WAQ 7873)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Faint o gleifion allanol fu'n aros mwy na chwe mis am driniaeth ym mhob un o'r deng mlynedd ddiwethaf yng Nghymru fesul etholaeth. (WAQ 7874)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Faint o gleifion fu'n aros am driniaeth fel cleifion mewnol ar gyfer clefyd y galon ym mhob un o'r deng mlynedd ddiwethaf yng Nghymru fesul etholaeth. (WAQ7875)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Faint o gleifion fu'n aros am driniaeth fel cleifion mewnol ar gyfer canser ym mhob un o'r deng mlynedd ddiwethaf yng Nghymru fesul etholaeth (WAQ7878)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Faint o bobl sy’n disgwyl am drawsblaniadau organau ar hyn o bryd yng Nghymru (WAQ7876)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Faint o amser y mae’n rhaid i glaf aros ar gyfartaledd i gael trawsblaniad organau? (WAQ7877)